



## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Ebrill 2015

*Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 17

Llwyddo: 6

Er bod cryn nifer wedi llwyddo yn yr arholiad y tro hwn, ni lwyddodd yr un ymgeisydd i gyflawni rhagoriaeth yn y ddau ddarn, er i un ymgeisydd gyrraedd y brig yn yr ail ddarn. Anwastad oedd y safon, felly, gan fod rhai ymgeiswyr oedd heb llwyddo wedi dod yn agos at gyflwyno cyfieithiadau llwyddiannus, tra bod eraill wedi cyflwyno gwaith oedd yn cynnwys nifer o wallau esgeulus, na ellir eu hesgusodi hyd yn oed o dan straen arholiad.

Wedi dweud hynny, cafwyd cyffyrddiadau da yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr, a dyma rai enghreifftiau o hynny:

*Flytipping on the increase*

***Tipio anghyfreithlon ar gynnydd***

*owned by the company*

***y mae'r cwmni'n berchen arnynt***

*the increase was very worrying*

***bod y cynnydd yn peri pryder***

*Credit is another word for borrowing*

***Gair arall am fenthyca yw credyd***

Yn anffodus, fodd bynnag, gwelwyd llawer o'r ymgeiswyr yn crwydro oddi wrth ystyr y gwreiddiol, gan ychwanegu a hepgor elfennau, cyfieithu'n rhy fras i gyfleu union neges y gwreiddiol, neu ddewis gair cwbl anaddas, e.e.:

*with the clearance bill for local authorities rising 24% to £45.2m*

***gyda'r bil clirio ar gyfer awdurdodau lleol yn codi rhyw 24% i fyny at £45.2m golyga hyn bod bil clirio awdurdodau lleol yn codi o 24% i £45.2m.***

*less serious flytipping*

***tipio anghyfreithlon llai difriol***

***gollwng ysbwriel anghyfreithlon***

*the increase was very worrying*  
***fod y cynnydd yn bryderus iawn***

*other incidents of illegally-dumped rubbish*  
***eitemau eraill o sbwriel a gaiff eu tipio'n anghyfreithlon***  
***enghreiffiau o sbwriel wedi'u dadlwytho'n anghyfreithlon***

*cuts to local authority budgets*  
***toriadau i gyllid awdurdodau lleol***

*£17.3m*  
***un deg saith pwynt tri mil o bunnoedd***

*A spokeswoman... said*  
***Dywedai llefarydd***  
***Dywed llefarydd***

*These statistics show*  
***Mae'r ystadegau'n dangos***

*Cuts to local authority budgets may have had an impact*  
***Gellir dadlau, efallai, fod toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol wedi cael effaith***

*the clearance bill for local authorities*  
***mae'r gost i awdurdodau lleol***

*their unwanted furniture and fridges on the streets*  
***eu celfi a'u oergelloedd ar y strydoedd***

*this is no excuse for people to simply dump their unwanted furniture and fridges on the streets*  
***nid esgus mo hyn i bobl daflu'r dodrefn a'r oergelloedd nad ydynt mo'u hangen bellach yn ddiofal ar y stryd.***

Gwelwyd hefyd gryn dipyn o ddylanwad y Saesneg ar batrymau'r Gymraeg, gyda ffurfiau fel 'y nifer o fatresi' (yn hytrach na 'nifer y matresi') i'w gweld yn llawer o'r sgrïptiau, diffyg defnydd o'r fannod yn y rhestr yn y frawddeg gyntaf, a ffurfiau megis 'esgus i bobl i ddympio' (cyfieithiad llythrennol o 'excuse for people to', er nad oes angen yr ail 'i' yn Gymraeg).

Ar ben hyn, cafodd rhai ymgeiswyr drafferth wrth geisio dewis eitemau geirfaol addas:

*marking the first increase in flytipping in years*  
***gan farcio'r cynnydd cyntaf mewn tipio anghyfreithlon mewn blynnyddoedd***

*A spokeswoman... said*

## ***Dyweddod llafarwraig...***

*the equivalent of one incident*  
***sy'n gyfystyr ag un tro***

*known as store cards*  
***a elwir yn gardiau storio***  
***sef cardiau stôr***  
***a adnabyddir fel cardiau siop***

Mae'r enghreifftiau olaf hyn hefyd yn dangos nad oedd rhai ymgeiswyr wedi deall bod angen cyfieithu'r ail ddarn mewn modd clir, hawdd ei ddeall. O ystyried y gynulleidfa darged, nid oedd ffurfiau amhersonol a iaith fwy ffurfiol yn addas yn y darn hwn, ac felly ni ellir barnu bod cyfieithiadau oedd yn eu defnyddio yn llwyddiannus.

Rhaid cymhell yr ymgeiswyr, felly, fel cynifer o weithiau yn y gorffennol, i roi sylw mwy manwl i union ystyr y gwreiddiol, a gwirio'u gwaith yn llawer mwy gofalus, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno sgript sy'n cyfleu'r neges gywir, ac sydd hefyd yn darllen yn naturiol yn y Gymraeg. Fel y soniwyd eisoes, roedd elfennau addawol yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr, felly carwn eu hannog i ddal ati i fireinio'u crefft, gyda golwg ar sefyll yr arholiad eto ar ôl gloywi tipyn mwy ar eu mynegiant.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 9  
Llwyddo: 3

Er bod traean o'r ymgeiswyr wedi llwyddo yn y rownd hon, boddhaol yn unig yw'r gwaith a gyflwynwyd ganddynt, ac ni lwyddodd yr un ymgeisydd i sicrhau gradd 1 ym mhob elfen. Carwn annog pob un ohonynt, felly, i fanteisio ar bob cyfle i loywi eu sgiliau, ac i barhau i fireinio'u crefft, er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn gwella'n barhaus, a'u bod yn medru cynnal safon eu gwaith gorau.

Fel sy'n arferol ar y lefel sylfaenol, ceisiwyd sicrhau bod pynciau'r ddau ddarn i'w cyfieithu yn ddigon cyfarwydd. Syndod, felly, oedd gweld nad oedd un ymgeisydd yn gyfarwydd â'r term 'stained glass', a bod un arall heb glywed am 'smartphones'. Yn naturiol, fe all gair fynd yn anghof dan amodau arholiad, ond gellir egluro hynny'n hwylus mewn troednodyn, a doeth fyddai gwneud yr un peth yn achos term anghyfarwydd. Trueni na wnaeth yr ymgeisydd a gyfieithodd Dyffryn y Swistir fel 'The Vale of Switzerland' hynny, i egluro ei fod yn ansicr ynghylch y fersiwn Saesneg gywir.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd yn y ddau ddarn:

*sianeli teledu di-ri a ffonau clyfar*  
***countless television channels and smart phones***

*a thameidiau mân o fetel*

*and fine fragments of metal*

*ymdoddi deunyddiau*  
**fusing materials**

*atgofion... gwerthfawr*  
**treasured memories**  
**precious memories**

*darnau masnachol personol*  
**bespoke commercial pieces**

*gwydr lliw gyda phlwm*  
**leaded stained glass**

*er mwyn eu gosod yn y goron arian*  
**...to be set in the silver crown**

Gwaetha'r modd, ochr yn ochr â'r rhain cafwyd ffurfiau fel y canlynol, sydd nid yn unig yn enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus, ond hefyd yn anghydweddus â phatrymau'r Saesneg:

**multiple channels of television**  
**where their children could freely play**  
**the Urdd Eisteddfod's, Swansea 2001 crown**  
**a quarter of parents were deplored by the fact**  
**kiln work and stained glass with lead work**  
**one of her recent commissions includes**

Cafwyd sawl enghraifft hefyd o eitemau geirfaol anaddas, a rhaid cyfaddef y dylasai unrhyw ymgeisydd weld bod angen cywiro enghreifftiau fel y canlynol o ddarllen y cyfieithiad yn annibynnol ar y gwreiddiol:

*weithgaredd dieithr*  
**foreign activities**

*mae'n anodd i lawer o blant heddiw gael y profiadau hynny drostynt eu hunain*  
**it is difficult for many children today to taste those experiences for themselves**

*ieuentid heddiw*  
**today's youths**

*Roedd chwarter y rhieni'n gresynu*  
**A quarter of parents worried**  
**A quarter of the parents pitied**  
**Three-quarters of parents were disappointed**

Ceir yr argraff, felly, nad yw gafael yr ymgeiswyr ar ramadeg a chystrawennau'r Saesneg mor gryf ag y gallai fod, a charwn annog pob un ohonynt i fanteisio ar bob cyfle i ddarllen Saesneg graenus, er mwyn ymdeimlo'n fwy â phatrymau naturiol yr iaith honno ar ei gorau.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch, fel arfer, i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Diolch o galon i'r tîm cyfan am hwyluso gwaith y Prif Arholwr.

**Fiona Gannon**  
**Mehefin 2015**